# Rhaglen

## 1. Cadarnhau cofnodion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2014.

Materion yn codi o'r cofnodion:

### 1.1 Grantiau a Gwasanaethau Cymunedol

**T**rosolwg ar reoli gwasanaethau cymunedol (Cyngor Tref Caergybi / Cyngor Tref Biwmares).

## 2. Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad

Llythyr dyddiedig 14 Ebrill 2014 gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau at Glercod Cynghorau Tref a Chymuned.

## 3. Grant Datblygu Gwefannau

Diweddariad.

## 4. Caeau Canmlwyddiant

Er gwybodaeth – llythyr dyddiedig 30 Ebrill 2014 oddi wrth Gadeirydd 'Fields in Trust' a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Lleng Brydeinig Frenhinol.

## 5. Unrhyw Fater Arall

# Cyfarfod Cyswllt gyda Chynghorau Tref a Chymuned

Dydd Iau, 23 Ionawr 2014 am 7.00 pm

| **Presennol** | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Arfon Owen | Cylch y Garn |
| Margaret Thomas | Llangefni |
| Arnold Milburn | Llangefni |
| Marilyn Hughes | Amlwch |
| Gwyn Jones | Amlwch |
| Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Chris Gordon Topps | Aberffraw |
| Jack Jones | Llannerch-y-medd |
| Arfon Jones | Llannerch-y-medd |
| John Jukes | Llannerch-y-medd |
| Anna Jones | Tref Alaw |
| Cliff Everett | Tref Caergybi |
| Dafydd Roberts | Dwyran |
| Geraint Parry | Llangoed a Llanddona |
| Eifion H. Jones | Pentraeth |
| Elfed Jones | Llanbadrig |
| Ian Owen | Llanfihangel Esceifiog |
| Ted Thomas | Llanfihangel Esceifiog |
| Owen Davies | Llanddyfnan |
| B Kotkowicz | Biwmares |
| Stan Zalot | Biwmares |
| Dafydd Griffiths | Llaneilian |
| JE Lewis | Llangristiolus a Cherrigceinwen |
| Julia Dobson | Llanbadrig |
| Enid Mummery | Bro Rhosyr |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Cyng Ieuan Williams | Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng H.E. Jones | Aelod Portffolio – Cyllid |
| Cyng Alwyn Rowlands | Aelod Portffolio – Llywodraethu Corfforaethol |
| Richard Parry Jones | Prif Weithredwr |
| Gwen Carrington | Cyfarwyddwr Cymuned |
| Clare Williams | Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro |

**Ymddiheuriadau:**
Cyngor Cymuned Trewalchmai
Cyngor Tref Porthaethwy
Cyng Meirion Jones

## 1. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2013 fel rhai cywir.

## 2. Cwrdd â'r Heriau - Ymgynghoriad ar Gyllideb 2014/15

Cafwyd crynodeb gan y Cynghorydd H.E. Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, o gyd-destun strategaeth ariannol tymor canol y Cyngor a'r materion allweddol. Tynnodd sylw yn benodol at yr arbedion o £7.5m yr oedd eu hangen yn ystod 2014/15. Cyfeiriodd hefyd at y canllawiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllideb y Cyngor a gofynnodd am sylwadau gan y Cynghorau Tref a Chymuned ar y cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor. I gloi, dygodd sylw at y ffaith fod cynigion y Cyngor yn canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau rheng-flaen.

Gofynnwyd wedyn am sylwadau ar y manylion yn y ddogfen ymgynghori. Nodir isod grynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd gan gynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned:-

### Gwasanaethau Lleol a Chydweithio

- Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned bwerau i godi refeniw er mwyn darparu gwasanaethau lleol. Dylid annog Cynghorau Tref a Chymuned i gydweithio i reoli gwasanaethau lleol e.e. toiledau cyhoeddus. Dylid gwneud mwy i gynnwys cymunedau lleol i godi refeniw. Dylai Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Cybi a'r tu draw weithio gyda'i gilydd i ymchwilio i opsiynau (Cyngor Tref Caergybi).

### Grantiau a Gwasanaethau Cymunedol

- Dylai Cynghorau Tref a Chymuned fedru cael at grantiau cyfalaf. Fodd bynnag, mae rheolau mewn perthynas ag e.e., Cyfenter, yn gwahardd hyn. Dylai'r rhaglen Leader Newydd ganiatau i Gynghorau Tref a Chymuned gael mynediad i grantiau. Mae Cyngor Tref Caergybi wedi adnewyddu Sinema'r Empire yn ddiweddar er defnydd cymunedol a dylid gwneud mwy i rannu arferion da (Cyngor Tref Caergybi).
- Defnyddio cyllideb yr Ymddiriedolaeth Elusennol a thaliadau unwaith ac am byth i Gynghorau Tref a Chymuned i ddarparu gwasanaethau e.e. trwy grantiau cyfalaf. Dylai'r Ymddiriedolaeth Elusennol ystyried y mater hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf (Cyngor Tref Caergybi).

**Gweithredu: Cyngor Tref Caergybi a Chyngor Tref Biwmares i roi trosolwg ar reoli gwasanaethau cymunedol yn y cyfarfod nesaf.**

**Asedau**

- Yr angen i ddefnyddio asedau'r Cyngor er mwyn gwneud arbedion (Cyngor Tref Caergybi). Nododd Arweinydd y Cyngor fod swyddog yn y Gwasanaeth Datblygu Economaidd wedi ei benodi i ddatblygu partneriaethau lleol ac i gyd-gysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar faterion o'r fath.

**Buddion Cymunedol**

- Soniwyd am fuddion cymunedol yng nghyd destun datblygiadau mawr a sgôp i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol (Cyngor Tref Caergybi). Dywedodd yr Arweinydd y byddai adroddiad ar fuddion cymunedol yn cael sylw gyda hyn yn y Pwyllgor Gwaith.

**Cynnydd yn y Dreth Gyngor**

- Mewn perthynas â chynnydd arfaethedig o 5% yn y dreth Gyngor, gofynnwyd am eglurhad ynghylch beth fyddai cynnydd o 1% yn ei olygu mewn termau ariannol (Cyngor Cymuned Llangoed).

- Ystyriwyd fod y cynnydd o 5% yn weddol resymol ac y byddai yn cyfateb i gynnydd o 86c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D (Cyngor Tref Llangefni).

- Soniwyd am effaith cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor i drigolion lleol a sgôp i godi refeniw e.e. codi tâl am ddefnyddio toiledau cyhoeddus (Cyngor Tref Biwmares).

**Addysg**

- Cyllidebau ysgol a defnyddio arbedion yn sgil cau Ysgol Llanddona. Cyfeiriwyd at y rhaglen amlinellol strategol a'r strategaeth foderneiddio a ystyriwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Gwaith. Dygodd yr Arweinydd sylw at gynigion strategol yn yr ardaloedd isod:

  - Caergybi, Biwmares, y Llannau a'r De-Orllewin.

- Defnyddio adeiladau ysgol gwag a bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer e.e. eu defnyddio ar gyfer tai cymdeithasol (Cyngor Cymuned Aberffraw ).

- Lefelau staffio mewn ysgolion a'r gymhareb athrawon : cynorthwywyr dosbarth (Cyngor Cymuned Aberffraw).

**Twristiaeth**

- Atyniadau'r Cyngor - gostyngiad mewn oriau agor. Pryder ynghylch goblygiadau'r cynigion ar dwristiaeth a chyfraniad twristiaeth i'r economi leol (Cyngor Tref Biwmares).

- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd twristiaeth i'r ynys a chyfleusterau lleol e.e. toiledau cyhoeddus.

**Toiledau Cyhoeddus a Thai**

- Toiledau cyhoeddus ym Mhorth Swtan a rheoli'r cyfleuster yn ystod y Gaeaf. Mae'r Cyngor Cymuned yn disgwyl am ymateb gan y Cyngor (Cyngor Cymuned Cylch y Garn).

- Pe bai'r ddarpariaeth hon yn cael ei throsglwyddo i Gynghorau Cymuned dylai'r Cyngor wneud cyfraniad ariannol (Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen).

- Grantiau i Fusnesau ynghylch toiledau cyhoeddus. Gofynnwyd am eglurhad ar statws y grant a bod angen cyfathrebu'r wybodaeth honno i Gynghorau Tref a Chymuned. Yn ogystal, dywedwyd y dylai arwyddion ar adeiladau sydd yn rhan o'r cynllun fod yn fwy amlwg (Cyngor Tref Amlwch).

**Gweithredu: Darparu gwybodaeth i Gynghorau Tref a Chymuned**

- Datblygiad tai yn Niwbwrch a chau toiledau cyhoeddus. Dylid darparu cyfleusterau ar gyfer toiledau cyhoeddus oherwydd agosrwydd i Ynys Llanddwyn. Hefyd angen rhoi sylw i faterion mynediad os bydd datblygiad Tai yn mynd yn ei flaen (Cyngor Cymuned Niwbwrch).

**Gwasanaeth Arforol**

- Gwasanaeth arforol – nifer y wardeiniaid traeth y mae eu hangen (Cyngor Cymuned Aberffraw).

- Mewn perthynas â wardeiniaid traeth, dylai'r Cyngor ystyried rôl cyrff gwirfoddol e.e. Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (Cyngor Tref Beaumaris).

**Gofal Cymdeithasol**

- Gofal Cymdeithasol – Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad cyfredol ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn a phwysigrwydd cynnal trafodaethau gyda Chymunedau lleol o'r cychwyn cyntaf (Cyngor Tref Biwmares).

**Lefel y manylder yn y ddogfen ymgynghori**

- Dim digon o fanylion i gyflwyno sylwadau llawn a dim digon o wybodaeth gefndirol yn y ddogfen e.e. beth mae gostyngiad o £104k mewn perthynas â darpariaeth toiledau cyhoeddus yn ei olygu mewn gwirionedd (Cyngor Cymuned Llaneilian).

- Soniwyd nad oedd amserlen yr ymgynghoriad yn caniatau digon o amser ar gyfer ymateb.

3. **Unrhyw Fusnes Arall**

Tynnodd Cyngor Cymuned Llanfairpwll sylw at gyfarfod cyhoeddus ar 24 Ionawr 2014 yn y pentref ynghylch llinellau trawsyrru.

ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG
DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE

LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor
PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) /
SWYDDOG MONITRO
HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) /
MONITORING OFFICER

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752563
ffacs / fax: (01248) 752132
E-Bost – E-mail: APXCE@anglesey.gov.uk

Clercod Cynghorau Tref a Chymuned
Clerks to Town and Community Councils

14/4/2014

Ein Cyf – Our Ref. AP/EC/CC-017471-AP
Eich Cyf – Your Ref.

Annwyl

**HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD I AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Yn dilyn ymlaen o'n llythyr blaenorol ynghylch yr uchod, rydym yn ysgrifennu atoch i ddarganfod a fyddwch ar gael ar gyfer hyfforddiant y mae'r Cyngor yn bwriadu ei drefnu ar gyfer clercod y Cynghorau Cymunedau yn yr hydref. Mi fydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar egwyddorion allweddol y Côd Ymddygiad, yn arbennig, yr ymrwymiad i drin eraill â pharch ac ystyriaeth, a'r angen i ddeall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a rhagfarnus, a beth sydd angen ei ddatgan, pryd a sut.

Ein bwriad yw y bydd y clercod wedyn yn rhannu'r hyfforddiant gydag eraill yn eu cyngor/cynghorau.

Darperir yr hyfforddiant yn Saesneg ond bydd sleidiau Cymraeg ar gael a gellwch ofyn cwestiynau neu wneud ymholiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd

Dear

**TRAINING ON THE CODE OF CONDUCT FOR MEMBERS OF TOWN AND COMMUNITY COUNCILS**

Following on from our previous letter with regard to the above, we are writing to you to see if you're available for training the Council is intending to arrange for Community Council Clerks in Autumn. The training will be concentrating on the key principles of the Code of Conduct, particularly the requirement to treat others with respect and consideration, and the need to understand the difference between a personal and a prejudicial interest, together with what needs to be declared, when and how .

The aim subsequently would be for the clerks to share the training with others in their council/councils.

The training will be conducted through English, however, there will be Welsh slides available and you will be able to present questions and queries in Welsh or English.

cyfieithydd ar gael yn ystod y sesiwn hefyd.

There will also be a translator available during the session.

Gwelwch isod restr o ddyddiadau arfaethedig ar gyfer yr hyfforddiant:

Please see below a list of proposed dates for the training:

29fed o Hydref 2014
30fed o Hydref 2014

29th October 2014
30th October 2014

Gadewch i mi wybod os gwelwch yn dda pa un o'r dyddiau uchod fyddai'n fwyaf hwylus i'ch clerc. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Please let me know which of the above dates would be most convenient for your clerk. Training will be held at the Council Offices in Llangefni.

A fyddech cystal â rhoi awgrymiadau hefyd ynghylch pa faterion eraill ynglŷn â'r Côd y byddech yn hoffi i ni roi sylw iddynt yn yr hyfforddiant.

Also, please also let me know of any other matters relating to the Code of Conduct that you would like us to address in the training.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosib a dim hwyrach na 30 Mehefin 2014.

I look forward to hearing from you as soon as possible and no later than 30 June 2014.

Cofion gorau

Best wishes

**Mike Wilson**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee**

fit
fields in trust
Meysydd Chwarae Cymru

CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

CENTENARY FIELDS
CAEAU CANMLWYDDIANT

**Commemorating World War I 2014-2018**
**Cofio'r Rhyfel Byd I 2014-2018**

Mr Richard Parry Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

ADRAN PRIF WEITHREDWR
6 - MAY 2014
CHIEF EXECUTIVE'S DEPT

30 Ebrill 2014

Annwyl Mr Jones

**Caeau Canmlwyddiant**

Maen bleser gan y Lleng Brydeinig Frenhinol a Fields in Trust/Meysydd Chwarae Cymru fod yn arwain menter genedlaethol sy'n anelu at ddiogelu mannau hamdden am byth er cof am y miliynau o bobl a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Amcan y rhaglen newydd hon yw annog pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig i enwebu o leiaf un man hamdden i gael ei ddynodi fel Cae Canmlwyddiant i goffáu'r garreg filltir bwysig hon yn ein hanes, a chreu etifeddiaeth leol bendant a fydd yn cael ei gwerthfawrogi gan eich cymuned leol am genedlaethau i ddod.

Fel elusen Lluoedd Arfog mwyaf y Deyrnas Unedig, a'r Ceidwad Coffa, bydd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn arwain y genedl o ran parchu'r aberthau a gafodd eu gwneud yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae Fields in Trust/Meysydd Chwarae Cymru wedi bod yr elusen annibynnol flaenllaw sy'n ymgyrchu i sicrhau a gwella caeau chwarae am fwy na 85 mlynedd gyda chefnogaeth hirsefydlog y Teulu Brenhinol.

Felly, mae'r ddau sefydliad yn falch o fod yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r rhaglen Caeau Canmlwyddiant, sy'n anelu at ddiogelu'r parciau coffa, caeau chwarae a mannau gwyrdd eraill a roddwyd er cof am y rhai hynny a gollodd eu bywydau. Yn ogystal â rhoi cyfle i goffáu'r aberthau a gafodd eu gwneud , mae'r fenter hon yn cyd-fynd ag ysbryd Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yr ydych wedi ymrwymo i'w gadw.

I ymuno â ni yn y rhaglen Caeau Canmlwyddiant plis:

1. Llenwch y ffurflen sydd wedi'i hamgáu gan roi gwybod i ni a) enw unrhyw safle(safleoedd) yr hoffech ei ddiogelu / eu diogelu fel Caeau Canmlwyddiant a b) manylion cyswllt yr aelod priodol o'ch tîm.
2. Fel arall, ceisiwch annog eich cydweithiwr priodol i gysylltu â Rhodri Edwards, Rheolwr Meysydd Chwarae Cymru drwy anfon e-bost at rhodri.edwards@fieldsintrust.org
3. Unwaith y bydd safle addas wedi ei gytuno, bydd rhaid i'r awdurdod lleol gwblhau gweithred gyflwyno i ddiogelu eu man gwyrdd enwebedig am byth (mae copi o'r weithred hon wedi ei hamgáu er cyfeiriad i chi). Sylwer nad yw hyn yn gofyn am unrhyw newid i berchnogaeth a rheolaeth y safle, sy'n parhau i fod yn gyfan gwbl ar lefel leol.

Bydd pob Cae Canmlwyddiant yn cael arwydd sy'n dangos ei statws dynodedig, a fydd yn galluogi digwyddiad lleol i gael ei drefnu i nodi'r weithred o ymroi'r safle fel rhan o'ch dathliadau Canmlwyddiant.

Yn ogystal, bydd Fields in Trust/Meysydd Chwarae Cymru yn gweithio i godi cronfeydd elusennol i ddarparu grantiau gwella o bryd i'w gilydd i safleoedd sydd wedi'u diogelu fel rhan o'r rhaglen Caeau Canmlwyddiant .

Yn ystod y cyfnodau economaidd anodd hyn, rydym yn credu bod gan y rhaglen hon y rhinweddau deuol o fod yn rhad i'w gweithredu gan hefyd, gydnabod yr aberth enfawr a wnaed gan genedlaethau cynharach dros bawb ohonom .

Mae'r ddau ohonom yn falch iawn y bydd Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt yn cefnogi'r ymgyrch hon.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych chi ac yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf drwy'r rhaglen Caeau Canmlwyddiant .



"**Bydd y rhaglen Caeau Canmlwyddiant yn diogelu ein parciau coffa, meysydd chwarae a mannau gwyrdd eraill am byth er cof am y rhai hynny a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Drwy weithio gydag awdurdodau lleol a pherchnogion tir, bydd y prosiect hwn yn talu teyrnged haeddiannol i'r aberthau a gafodd eu gwneud bryd hynny gan bobl leol, ac ar yr un pryd, yn diogelu ein mannau gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

Cefnogwch Feysydd Chwarae Cymru a'r Lleng Brydeinig Frenhinol i goffáu'r garreg filltir bwysig hon yn ein hanes, a helpu i gofio i fyw ymlaen drwy Gaeau Canmlwyddiant."

Ei Uchelder Brenhinol
Dug Caergrawnt
Llywydd, Fields in Trust/
Meysydd Chwarae Cymru

Yr eiddoch yn gywir,

**Tim Phillips CBE**
**Cadeirydd**
**Fields in Trust**

**Chris Simpkins**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Y Lleng Brydeinig Frenhinol**

Cc Cyngh. Ieuan Williams, Arweinydd y Cyngor